



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

Ruth Lee

Cwmni manicinau yn dathlu cynnydd mewn cynnyrch.



Model o berson yn cael ei ddefnyddio mewn ymarfer hyfforddi

Mae darparwr blaenllaw o fanicinau a chymhorthion at ddefnydd hyfforddiant wedi cynyddu effeithlonrwydd ei broses gynhyrchu 12%.

Mae cwmni Ruth Lee o Sir Ddinbych yn darparu manicinau maint llawn at ddefnydd hyfforddiant ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub, parafeddygon, y weinyddiaeth amddiffyn, meysydd awyr a gwylwyr y glannau ledled y byd.

Mae gan Ruth Lee dros 60 mlynedd o brofiad yn y maes ac mae wedi ymrwmo i ddarganfod dulliau newydd o wella'r broses gynhyrchu. Ar ôl ymrestru ar raglen gynhyrchiant SMART Llywodraeth Cymru, derbyniodd Ruth Lee adroddiad trylwyr yn amlinellu gwelliannau posibl i arbedion effeithlonrwydd. Ymhlith yr argymhellion roedd buddsoddi mewn peiriant nwyddau awtomatig fel bod modd cwblhau gwaith torri gan beiriant a digideiddio patrymau, arbed amser a galluogi'r cynhyrchydd i nodi sut i osod y ffabrig.

Mae'r buddsoddiad hwn wedi gwella effeithlonrwydd a lleihau deunyddiau gwastraff o'r broses gynhyrchu yn sylweddol.

Mae'r cymorth, sy'n cael ei ddarparu gan Dîm Arloesi Llywodraeth Cymru, yn ariannu gwasanaeth ymgynghori tri diwrnod gan



arbenigwr arloesi allanol. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, mae busnesau'n derbyn adroddiad sy'n nodi gwelliannau posibl i gynhyrchiant, gan gynnwys peiriannau, technoleg neu feddalwedd newydd.

Mae cymorth newydd a lansiwyd eleni yn darparu gwasanaeth ymgynghori pum diwrnod ychwanegol er mwyn helpu busnesau i weithredu argymhellion yr adroddiad.

Meddai Stuart Cheetham, Rheolwr Gwerthiant y DU cwmni Ruth Lee:

"Mae barn hyd braich ar y busnes a'i brosesau yn bwysig iawn i ni bob amser, ac fe gawsom wasanaeth rhagorol gan yr ymgynghorydd Cynhyrchiant SMART. Oherwydd ei wybodaeth fanwl am y diwydiant cynhyrchu, roedd yn gallu gofyn cwestiynau fel 'Ydych chi wedi ystyried hyn?' Roedd hynny'n well na gwneud argymhellion a fyddai'n amhriodol i ni.

"Mae'r argymhellion yn ein hadroddiad Cynhyrchiant SMART wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a phendant i'n busnes, a gallai'r broses fod wedi bod yn arafach o lawer heb y cymorth allanol gan fod pawb mor brysur yn ein gwaith o ddydd i ddydd."



Busnes | Business
Cymru | Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth
gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000
innovation@llyw.cymru | businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**